

Bob mis byddwn yn canolbwyntio ar awdur ysbrydoledig sy'n byw yng Nghymru neu'n ysgrifennu am Gymru! Cewch gyflwyniad i'w llyfr diweddaraf, beth sy'n eu hysbrydoli i ysgrifennu, ac unrhyw gyngor sydd ganddynt i ysgrifenywyr ifanc!

Dod i adnabod


John Alwyn Griffiths



Yn enedigol o Fangor, bu John yn heddwes drwy ei yrfa gan weithio ledled gogledd Cymru cyn ymddeol yn 1998 o fod yn bennaeth Adran Dwyll Heddlu Gogledd Cymru. Mae bellach yn byw ym Môn.

Medd John, 'Dyma fy negfed llyfr mewn deng mlynedd - y nawfed nofel sy'n dilyn hynt a helynt y Ditectif Jeff Evans. Dwi'n falch fod darllenwyr nofelau ditectif Cymraeg wedi cymryd ato cystal.'

Mae plotiau ei nofelau ditectif i gyd yn gwbl wahanol ac yn amrywio o gynllwyn i osod ffrwydrion mewn pwerdy niwclear i lofruddiaethau cyfresol. Y tro hwn, mae'r nofel yn neidio o is-fyd troseddol Birmingham yn y 1980au i barciau gwyliau gogledd Cymru yn 2020.



Crynodeb:

Ymunwn am y nawfed tro â'r Ditectif Jeff Evans, sy'n ceisio cadw trefn ar dref Glan Morfa a'r cyffiniau.

Yn y nofel hon mae Jeff yn cael ei alw i ddelio â marwolaeth amheus ar dir parc carafannau lleol, lle mae anghydfod wedi bod rhwng tad a mab. Wrth ymchwilio'n ddyfnach mae'n darganfod bod cwmni anhysbys wedi bod yn ceisio brawychu'r perchennog i dalu arian iddyn nhw er mwyn gwarchod y safle rhag niwed - profiad y mae nifer o berchnogion parciau gwyliau ar hyd yr arfordir wedi gorfod ei wynebu. All Jeff ddarganfod be sy'n mynd ymlaen, ac yn bwysicach, pwy sy'n gyfrifol?

Beth wnaeth eich ysbrydoli i ysgrifennu'r llyfr hwn?

Hwn yw fy nawfed nofel mewn naw mlynedd - i gyd mewn cyfres sy'n dilyn anturiau'r Ditectif Jeff Evans mewn tref ddychmygol yng Ngogledd Cymru o'r enw Glan Morfa. Yr ysbrydoliaeth fwyaf i ysgrifennu'r nofel hon oedd ychwanegu at y gyfres sydd erbyn hyn yn boblogaidd â darllenwyr trwy Gymru.

Dywedwch ychydig am y stori rydych chi wedi'i chreu.

Yn y llyfr yma, roeddwn eisiau newid dipyn ar y drefn. Yn y gorffennol mae fy nofelau wedi dilyn ymchwiliadau Jeff Evans bob cam, a'r stori yn datblygu yn ôl ei ymholiadau o. Ond y tro yma mae yna ddwy stori, ymchwil i lofruddiaeth sy'n digwydd yn y presennol, a hanes sy'n mynd yn ôl i 1966, am ferch sydd wedi'i geni i deulu trafferthus a chael ei llusgo i fywyd o drais, cyn darganfod hapusrwydd. Mae'r ddwy stori yn plethu ac yn cyfuno tuag at ddiwedd y llyfr.

Pa neges sydd gennych i ysbrydoli ysgrifenywyr ifanc?

Mae gan bawb stori i'w dweud - deudwch hi. Dechreuwch ar unwaith. Defnyddiwch gyfrifiadur fel ei bod hi'n syml i newid y cynnwys. Gwnewch gynllun ac ychwanegwch ato fel mae'r syniadau yn dod i'ch pen chi. Gweithiwch yn ofalus ar y cynllun. Hwn yw'r darn pwysicaf o'r llyfr. Cariwch bapur a phensil efo chi bob amser, neu beiriant recordio os yn bosib. Gwnewch nodyn o syniadau newydd ar unwaith oherwydd buan y gwnânt ddiplannu. Peidiwch â disgwyl i'r syniadau eich taro chi - eisteddwch o flaen sgrin wag y cyfrifiadur os oes rhaid a dechrau ysgrifennu. Buan ddaw'r deunydd. Defnyddiwch bethau sy'n digwydd o'ch amgylch bob dydd yn y papurau newydd, newyddion y dydd, digwyddiadau yn eich dinas, tref neu bentref, neu'ch cartref.



carreg-gwalch.cymru



Llyfrgelloedd Cymru
Cael mwy o'ch llyfrgell

... mwy C&A
ar wefan

llyfrgelloedd.cymru